Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Nantlle
Adroddiad 2

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

Ym mis Medi daeth Cynulliad Cymunedol Dyffryn Nantlle ar yr Hinsawdd ynghyd am yr ail dro. Y tro hwn, daeth pawb at ei gilydd yng nghanolfan Trigonos yn Nantlle, a diolch i'r tîm yno am eu croeso.

Diwrnod 1

Dechreuwyd y Cynulliad trwy ffurfio grwpiau trafod ar sail pa ran o'r Dyffryn mae pawb yn byw. Gan gymryd mantais o'r tywydd sych, aethom allan ar y lawnt a chreu map o Ddyffryn Nantlle.



Gweledigaethau

Sesiwn gyntaf y Cynulliad oedd sesiwn gweledigaethu, neu ddychmygu sut le gallai Dyffryn Nantlle fod yn y flwyddyn 2037, petai popeth a ellid ei wneud i atal newid hinsawdd wedi cael ei wneud.

Pwrpas y sesiwn oedd caniatáu i ni greu syniadau uchelgeisiol, dychmygus a creadigol, a dychmygu sut y gallai gwahanol ddatrysiadau edrych ymhen pymtheg mlynedd.

Aeth pawb ati mewn grwpiau i restru'r pethau hoffen nhw eu gweld yn Nyffryn Nantlle ymhen pymtheg mlynedd, ac mae ymatebion y gwahanol grwpiau i'w gweld isod. Noder fod hyn yn cynnwys syniadau gan wahanol unigolion, ac nad yw eu cynnwys yma yn golygu ein bod wedi dod i gonsensws arnyn nhw.

Sut mae'r byd adeiledig?

- Ynni Cymunedol hunangynhaliol
- Ymylon ffordd a cylchfannau yn 'wyllt'
- Adeiladau wedi eu hinsiwleiddio

Sut mae byd natur yn edrych?

- Datblygu bioamrywiaeth

Beth sydd wedi newid?

- Treth twristiaeth i wella'n cymunedau

Beth hoffem ni ei gael yma?

- Rhwydwaith beicio a pwyntiau gwefru
- Mwy o ffermio tir âr a chynhyrchu bwyd, a gerddi cymunedol

Sut hoffem ni fyw?

- Y Gymraeg yn ffynnu
- Trafnidiaeth gyhoeddus am ddim
- Rhannu bwyd
- Perllan gymunedol

Sut mae'r byd adeiledig?

- Lefelau effeithlonedd egni wedi cynyddu'n sylweddol
- Gweld mwy o beiriannau cynhyrchu trydan adnewyddadwy
- Mwy o ddefnydd o ddeunyddiau naturiol
- Micro-generadurau ar bob tŷ
- Llai dibynnol ar y grid cenedlaethol

Sut mae byd natur yn edrych?

- Mwy o goed
- Llai o lygredd
- Mwy o natur, gerddi cymunedol a rhandiroedd

Beth sydd wedi newid?

- Mae gennym siop gymunedol
- 75% o geir yn rhai trydan
- Y neuadd bentref yn brysur ac yn cael ei defnyddio

Beth hoffem ni ei gael yma?

- Cynhyrchu yn lleol a gwerthu yn lleol
- Plant, pobl ifanc, a phobl hyn yn rhannu sgiliau a straeon

Sut hoffem ni fyw?

- Tyfu mwy o fwyd yn ein gerddi, a bwyd yn cael ei gyfnewid efo cymdogion
- Rhannu 'pethau'
- Mwy o fentrau iechyd a lles cymunedol - helpu ein gilydd
- Pobl yn hapus, yn gwenu, ac yn nabod ei gilydd
- Creu llai o wastraff
- Byw yn fwy syml efo llai o stwff
- Trwsio yn lle prynu yn newydd
- Ailgylchu ac ailddefnyddio dillad.

Sut mae'r byd adeiledig?

- Gwell defnydd o ddŵr a charffosiaeth (gweld carffosiaeth fel adnodd)
- Gweld popeth fel adnodd
- Pob tŷ wedi ei insiwleiddio, a swyddi wedi cael eu creu trwy hyn.
- Insiwleiddio yn fforddiadwy i bawb.
- Paneli solar i unigolion neu mewn perchnogaeth gymunedol
- Gwneud y mwyaf o ffynonellau batri i fynd efo ffynonellau egni adnewyddadwy, er mwyn storio egni yn y cartref.

Sut mae byd natur yn edrych?

- Mwy o goed a gwrychoedd, ar y tir comin, ond wedi eu plannu yn y llefydd iawn
- Mwy o dir gwyrdd cymunedol
- 'Silviculture' a rheoli coetiroedd
- Y tymhorau wedi adfer

Beth sydd wedi newid?

- Ailgyflwyno y rheilffordd
- Egni yn cael ei gynhyrchu yn lleol gan leihau costau a defnydd
- Pawb yn defnyddio clytiau ail-ddefnyddiadwy
- Gwell dealltwriaeth ar draws y gymuned a'r byd.

Beth hoffem ni ei gael yma?

- Mwy o siaradwyr Cymraeg ail-iaith, a ffyrdd hawdd i bobl brysur ddysgu.
- System bysus trydan i bawb
- Beics ar gael i bawb eu defnyddio, a llwybrau da a saff
- Ceir trydan, fforddiadwy i'w rhannu (dyw pawb ddim angen car)
- Mwy o ddiwylliant lleol
- Mwy o *overlap*

Sut hoffem ni fyw?

- Mwy o gydraddoldeb
- Bwyd iach, lleol
- Byw yn gynaliadwy
- Pobl yn hapus, iach, efo gofal iechyd teg i bawb
- Pawb yn fwy ymwybodol o gost ynni, a llai o ddefnydd gwastraffus fel golau artiffisial
- Synnwyr o gyfrifoldeb cymunedol yn nhermau gwastraff/ ailgylchu/ rhannu bwyd
- *Freecycle* a rhannu yn arfer cyffredin.

Sut mae'r byd adeiledig?

- Tai cymdeithasol (rhanddeiliaid)
- Gofod
- Caeau
- Cartrefi fforddiadwy

Sut mae byd natur yn edrych?

- Gwarchod y mawn
- Awyr Dywyll
- Ffermio call, cadw anifeiliaid mewn caeau.
- Llygredd
- Pridd sâl i ffermwyr dyfu

Beth sydd wedi newid?

- Generadur egni cymunedol yn y chwarel, wedi perchnogi gan y gymuned
- Asedau
- Ysgol wedi cau
- Pawb yn cael eu parchu

Beth hoffem ni ei gael yma?

- Canolfan gymunedol
- Ysbryd cymunedol
- Gardd farchnad
- Egni adnewyddadwy
- Asedau cymunedol - perchnogaeth ar y cyd

Sut hoffem ni fyw?

- *Swap shop* a siop dŵls
- Cwch gwenyn cymunedol

Sut mae'r byd adeiledig?

- Mwy o dai rhent a chartref i bawb
- Egni adnewyddadwy *off-grid*
- Hen gartrefi wedi insiwleiddio yn iawn
- Llwybrau beicio gwell, a mynediad i feiciau trydan
- Ceir Hydrogen
- Ail wylltio tomennau llechi
- Paneli solar ar dir amaethyddol (o fewn rheswm!)

Sut mae byd natur yn edrych?

- Mwy o rannu tir
- Llai o rywogaethau ymledol
- Mwy o goed
- Mwy o flodau

Beth sydd wedi newid?

- Neb yn unig
- Y plant ddim wedi diflasu
- Wythnos waith 3 neu 4 diwrnod
- Gwaith cymunedol cyson

Beth hoffem ni ei gael yma?

- Tafarn yn Talysarn!
- Clybiau ieuenctid
- Cysylltiadau trafnidiaeth

Sut hoffem ni fyw?

- Cael ein trydan yn lleol
- Bwyd wedi ei dyfu yn gymunedol
- Medru bwydo ein hunain yn lleol
- Economi gyfnewid
- Mwy o ddod at ein gilydd fel cymuned.

Sut mae'r byd adeiledig?

- Cors
- Stoc dai o ansawdd, heb leithder a dŵr yn gollwng, ac ei fod o fewn gafael pobl leol.

Sut mae byd natur yn edrych?

- Lle wrth y bwrdd i fyd natur wrth drafod polisi ac adeiladu

Beth sydd wedi newid?

- Yr iaith wedi cryfhau
- Dim banciau bwyd
- Mwy tawel
- Pobl ifanc yn dewis aros yma
- Pawb efo lle addas i fyw

Beth hoffem ni ei gael yma?

- Cartrefi

Sut hoffem ni fyw?

- Mwy lleol, ar raddfa llai
- Lle llawn gofal
- Hawliau i bobl sy'n gweithio
- Teg - i Gymru
- Mwy o opsiynau i bobl sy'n gadael yr ysgol (heblaw am y brifysgol)
- Llai o bwysau ar bobl ifanc.

Cyflwyniad: Caffi Trawsnewid

Ar ôl yr egwyl, cafwyd cyflwyniad gan Anwen Harman a Samina Ali ynglŷn â'r Caffi Trawsnewid sydd wedi ei sefydlu ym Mhenygroes. Soniodd y ddwy am rai o'r prosiectau mae aelodau'r caffi yn ymwneud â nhw.

Gellir gwylio eu cyflwyniad yma: https://www.youtube.com/watch?v=mxPCx9BgY9E



Cyd-gynllunio amcanion y Cynulliad – rhan 1

Yn ystod sesiwn olaf y noson aethpwyd ati i feddwl ar y cyd pa fath o amcanion hoffem ni anelu atyn nhw erbyn diwedd Cynulliad 4. Gofynnwyd i bawb ystyried y gwahanol fathau o gynlluniau neu brosiectau yr hoffen nhw eu gweld yn dod allan o'r cynulliad yn y pen draw. Aeth pawb ati wedyn i feddwl pa fath o gamau fyddai angen eu cyflawni cyn medru cwblhau'r math hwnnw o waith, yna bu pawb yn ystyried lle y byddai hi'n rhesymol i ni, fel cynulliad, fod wedi cyrraedd erbyn diwedd cynulliad 4, o ystyried yr hyn yda ni wedi ei ddysgu hyd yma. Daethpwyd a'r drafodaeth i ben am y noson, er mwyn ail-afael yn y drafodaeth ar yr ail noson.

Diwrnod 2

Sgwrs efo Ceri, Mel a Holly

Ar ddiwrnod 2, fe ymunodd tri siaradwr gyda ni i drafod eu profiad nhw o weithio ar brosiectau amgylcheddol a chymunedol. Daeth Ceri Cunnington o Gwmni Bro ym Mro Ffestiniog, a Meleri Davies o Bartneriaeth Ogwen yn Nyffryn Ogwen atom ni yn Trigonos, ac ymunodd Holly Cross o Egni Adnewyddadwy Cwm Arian yn Sir Benfro efo ni dros Zoom. Cafwyd sgwrs am sut aethon nhw ati i sefydlu eu prosiectau, beth maen nhw wedi ei gyflawni, a sut y gwnaethon nhw ymdopi efo gwahanol heriau.

Gellir ail-wylio'r sgwrs yma:
https://www.youtube.com/watch?v=7SBbzEN1ciM



Taith o gwmpas y fferm

Un o uchafbwyntiau'r Cynulliad oedd y bwyd blasus a ddarparwyd gan Trigonos, gan ddefnyddio cynhwysion wedi eu cynhyrchu ar y fferm, gan ddefnyddio technegau tyfu biodynamig. Dyma gymryd mantais o'r cyfle felly i gael taith o amgylch y gofod tyfu gan Sean. Cafodd bawb hwyl yn gweld y twneli tyfu, ac yn gweld y domen gompost, er gwaethaf y glaw. Dyma rannu rhai lluniau, i'r rhai nad oedd wedi medru ymuno:









Myfyrio ac Adlewyrchu

Wedi'r sgyrsiau a'r daith i'r fferm, cafwyd cyfle i fyfyrio ac adlewyrchu ar yr hyn oeddem wedi ei ddysgu, er mwyn rhannu a chofnodi gwersi. Dyma'r wybodaeth oedd y gwahanol grwpiau wedi ei gasglu:

Beth wnaethom ni ei ddysgu?

- Dim angen bod ofn cael amrywiaeth er mwyn ennill diddordeb llawer o bobl
- Mae gwirfoddolwyr yn medru dod o bob mathau o gefndiroedd
- Gellir cynhyrchu trydan trwy grantiau mawr
- Syndod fod cymaint o bobl wedi troi o wirfoddoli at fod yn gyflogedig.
- Ceir a bysus trydan
- Cael pryd o fwyd mewn awyrgylch cynnes

Oes yna bethau wedi bod yn syndod?

- Faint sy'n cael eu cyflogi yn y pendraw, ar ôl cychwyn efo 4 gwirfoddolwr
- Cymaint o amrywiaeth mewn prosiectau
- Y bwyd blasus o Trigonos
- Ddim wedi sylweddoli fod yna gymaint yn digwydd eisoes
- Gweithio fel partneriaeth yn allweddol
- Sut y llwyddodd y cynghorau cymuned yn ardal Dyffryn Ogwen i gydweithio (y 4 cyngor wedi cydweithio)

Unrhyw syniadau newydd?

- Tripiau bws trydan cymunedol
- Angen rhywun i arwain y gwaith, fel swyddog datblygu
- Cywarch (hemp) fel defnydd adeiladu, i wneud plastig a chymaint mwy
- Canolfan Dechnoleg Amgen

Beth wnaethom ni ei ddysgu?

- Bod angen paratoi'n ofalus er mwyn llwyddo
- Pwysigrwydd cael cyfansoddiad a rheolau
- Angen cynllun busnes
- Mae'n bwysig i fentrau cymunedol fod yn seiliedig ar angen lleol
- Pwysigrwydd anferth cydweithio, rhannu gweledigaeth a deall a helpu ein gilydd i gyflawni a chynnal prosiect.

Oes yna bethau wedi bod yn syndod?

- Bod y cynghorau cymuned yn rhan mawr o'r datblygiad
- Parodrwydd y cynghorau i weithio efo'r grŵp - a fydda nhw'n galluogi neu'n rhwystro?
- Rydw i wedi fy llorio gan y bwyd bendigedig sy'n cael ei dyfu yn y twneli tyfu! Mewn cynhyrchiant llawn, gallai'r twneli hyn fwydo 100 teulu

Unrhyw syniadau newydd?

- Bod cefnogaeth ar gael gan fentrau eraill
- Bod a hyder i ddefnyddio'r dychymyg
- Gwleidyddol - aelodau GwyrddNi yn barod i gefnogi ymgeiswyr ac yn pleidleisio dros y rhai sy'n cefnogi a helpu ni
- Gweithio gyda'n gilydd
- Rhannu syniadau
- Dod â chymunedau ynghyd i drafod ystod eang o syniadau efo egni, jest yn rhan o'r gymysgedd
- Mae grantiau ar gael - amdani!
- Grwpiau seiliedig ar grwpiau tasg, a chanolbwyntio ar bethau ymarferol

Beth wnaethom ni ei ddysgu?

- Mae eisiau criw mawr o wirfoddolwyr
- Mae'n cymryd amser hir - mwy na'r disgwyl
- Mae atebion yn dod o'n cyd-destun
- Pwysigrwydd hunan-gynhaliaeth
- Gwneud y cysylltiadau i greu rhwydwaith
- Helpu cydlynu gwaith/gweithredu
- Pa fath o brosiect? Bach neu fawr?
- Lefel o risg
- Gwrthdaro efo cyrff
- Ydi gwrthdaro yn iach weithiau?
- Rhestr hir o bobl
- Cryfder a pherthnasau

Oes yna bethau wedi bod yn syndod?

- Gwasanaeth clercio
- Diffyg cefnogaeth gan fusnesau mawr fel y grid
- Cymaint o bobl sy'n gofalu am bethau, neu efo diddordeb

Unrhyw syniadau newydd?

- Angen arbrofion sy'n ddiogel i fethu
- Arbenigedd fel retrofitting
- Clirio, cynnal a chadw llwybrau

Beth wnaethom ni ei ddysgu?

- Llawer o bobl yn gwneud llawer o bethau diddorol
- Prynu asedau cymunedol ar gyfer cynhyrchu ffynonellau arian
- Prosiectau mawr vs prosiectau bach - ffocws cychwynnol

Oes yna bethau wedi bod yn syndod?

- Lle mae'r ystafell fadarch? (laith!)
- Lot o bethau a phrosiectau cymunedol yn digwydd eisoes

Unrhyw syniadau newydd?

- Platfform i rannu gwybodaeth yn D.N.

Beth wnaethom ni ei ddysgu?

- Efo Sean, wedi dysgu am dyfu llysiau, a'i fod yn bosib yn y tywydd a'r ardal yma
- Prosiectau cymunedol positif

Oes yna bethau wedi bod yn syndod?

- Cynlluniau mwy uchelgeisiol nac oeddwn wedi ei hystyried
- Sylfaenwyr y prosiect ddim yn arbenigwyr ynni.
- Cymaint wedi cyfrannu at synnwyr cymuned

Unrhyw syniadau newydd?

- Melin wynt - Cilgwyn?
- Cynllun heidro yn yr hen chwareli?
- Addasu i newid yn lefel y môr?
- Defnyddio arbenigwyr y dafarn gymunedol?

Beth wnaethom ni ei ddysgu?

- Mae Iwtopia yn bosib!
- Datrys gwrthdaro efo ras wy ar lwy!
- Arian ar gael
- Cymunedau gwahanol ond yr un problemau, a'r gallu i ddatrys
- Lleoliad afon Gwyrfai
- Plannu cymharus (companion planting)

Oes yna bethau wedi bod yn syndod?

- Y nifer o brosiectau sy'n cael eu rhedeg mewn llefydd eraill
- Y nifer o rwystrau i'w croesi er mwyn sefydlu cynllun heidro


Unrhyw syniadau newydd?


- Storfa coed tân cymunedol gan ddefnyddio sgil-gynnyrch gwaith trin coed
- Shediau dynion
- Amaeth + plannu coed + gwirfoddoli + NFU
- Glanhau afonydd
- Tyfu mefus mewn peipen


Cyd-gynllunio amcanion y Cynulliad – rhan 2


I gloi ail sesiwn y cynulliad, aethpwyd yn ôl i drafod amcanion posib y Cynulliad, gan glywed gan y gwahanol grwpiau beth oedden nhw wedi eu trafod. Rhannodd y grwpiau wahanol enghreifftiau o amcanion posib (yr amcanion hynny fyddai'r nod terfynol, rhywbeth hir dymor i anelu ato wedi diwedd y cynulliad). Wedyn, nodwyd at ba gam o weithio tuag at y math hwnnw o nod y byddai'r cynulliad yn debygol o gyrraedd erbyn cynulliad 4.


Cafodd pawb gyfle i ddarllen neu glywed am syniadau'r grwpiau eraill, yna defnyddio smotiau i nodi pa rai oedd pobl efo'r mwyaf o ddiddordeb ynddyn nhw.












































Gwelwyd ar sail yn lle'r oedd llawer o ddotiau wedi ei gosod fod llawer o ddiddordeb mewn creu cynllun gweithredu sy'n hawdd cymryd rhan a gwneud pethau, mewn creu grwpiau gweithredu, fod y cynllun yn cynnwys rhywfaint o gynlluniau hawdd i'w cyflawni er mwyn cael buddugoliaethau sydyn i gynnal momentwm, ac roedd diddordeb hefyd mewn creu prosiect cymunedol mawr, er enghraifft prosiect egni cymunedol.

Cafwyd trafodaeth bellach fel stafell, a dyma rhai o'r sylwadau neu gwestiynau a gododd:

(Noder mai cofnod bras o'r drafodaeth a geir yma, nid penderfyniadau na barn y cynulliad ar y cyd)

- A fyddai'n well i grwpiau ffocws fod yn ddaearyddol neu'n thematig?
- Sylw - Bydd grŵp Dyffryn Nantlle angen cyfansoddiad i barhau i weithredu ar ôl y cynulliadau?
- Cwestiwn - Lobio dros be? Ydi grwpiau ehangach rhanbarthol am leihau llais yr ardal benodol?
- Rhai yn cynnig y dylai'r cynulliad benderfynu ar un ymgyrch i gychwyn, er mwyn cael 1 amcan clir
- Awgrym: Gellid cael y cynghorau plwyf i mewn i weld y broses, a gweld pa mor 'engaged' ydi'r grŵp
- Nodwyd y bydd yn bwysig cadw cysylltiad, cadw momentwm. Angen camau bach sydyn fydd pawb yn medru cyfrannu atyn nhw
- Cyfathrebu (efo gweddill y gymuned) yn flaenoriaeth gan sawl un
- Camau nesaf i'r cynulliad- angen adnabod sgiliau a chryfderau'r aelodau
- Ydi pawb yn y gymuned yr un mor frwd? Cwestiwn mawr



Tan tro nesaf

Bydd y cynulliad yn cwrdd am y trydydd tro ym mis Rhagfyr, pan fyddwn ni'n clywed gan y cynulliad ysgolion, a datblygu syniadau yn gynlluniau ar gyfer y cynllun gweithredu.

Addewid GwyrddNi

Wrth i ni gydweithio i greu Cynllun Gweithredu ar gyfer ein hardal, nawr yw'r amser i wneud yn siŵr bod pobl eraill o fewn ein cymunedau hefyd yn dod i wybod am GwyrddNi a'r gwaith sydd ar droed yn y cynulliad cymunedol hwn.

Dyma yw pwrpas Addewid GwyrddNi. Wrth i bobl arwyddo'r Addewid - gallant wneud hynny ar gopi caled neu yn ddigidol - byddant yn rhoi eu cyfeiriad e-bost i ni er mwyn derbyn copi o'r Cynllun Gweithredu pan mae'n barod, ac ymrwymo i'w ddarllen.

Rhyngddom rydym yn adnabod cannoedd o bobl, yn rieni, pobl ifanc, ffrindiau, teulu, cymdogion, cydweithwyr…wrth gael y bobl yma i arwyddo Addewid GwyrddNi bydd llu o yn barod i ddarllen ein Cynllun Gweithredu, ac yn sgil hynny gobeithio yn barod i gefnogi a chyfrannu at ddyfodol cynaliadwy yr ardal hon.

Linc i arwyddo yn ddigidol: https://bit.ly/AddewidGwyrddNiPledge

Diolchiadau

Diolch i Trigonos am eu cefnogaeth; i Ceri o Gwmni Bro, Meleri o Bartneriaeth Ogwen, a Holly o CARE am roi o'u hamser i gefnogi'r cynulliad. Diolch i Lowri Lingo cyf. am y gwasanaeth cyfieithu, ac i'n partneriaid yn yr Orsaf am fod yn rhan o'r tîm hwyluso, ac am logi'r car trydan i ddarparu trafnidiaeth i'r cynulliad

https://linktr.ee/gwyrddni